# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Adroddiad (SLC(3) 25-08)

**Dyddiad: 11 Tachwedd 2008**
**Amser: 8.15am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Cynnwys

Cyfarfu'r pwyllgor ar 11 Tachwedd 2008. Roedd yr Aelodau pwyllgor a ganlyn yn bresennol yn y cyfarfod: Dr Dai Lloyd AC, Eleanor Burnham AC, Mark Isherwood AC, Alun Davies AC, a Joyce Watson AC.

### Mae adroddiadau'r pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

### Offerynnau drafft na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.

### Offerynnau drafft sy'n agored i gael eu cymeradwyo yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn gadarnhaol)

SLC215 - Rheoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) (Diwygio) 2008

Y weithdrefn gadarnhaol. Fe'u gwnaed ar ... 2008. Fe'u gosodwyd ar ... 2008. Yn dod i rym ar ...2008.

### Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reolau Sefydlog 15.2.

Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC213 - Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 18 Hydref 2008. Fe'i gosodwyd ar 22 Hydref 2008. Yn dod i rym ar 1 Rhagfyr 2008

SLC214 - Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 22 Hydref 2008. Fe'i gosodwyd ar 23 Hydref 2008. Yn dod i rym ar 17 Tachwedd 2008

Ceir Adroddiadau'r pwyllgor o dan Reol Sefydlog 15.2 ar yr offerynnau statudol sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad y Cynulliad (y weithdrefn negyddol) yn

Atodiadau 1-2 yr Adroddiad hwn**.**

### Eitemau eraill o fusnes

### Ymchwiliad i'r gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth a phwerau dirprwyedig

Cynhaliodd y pwyllgor ei bedwaredd sesiwn tystiolaeth lafar ar yr ymchwiliad i'r gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth a phwerau dirprwyedig, gan edrych ar sut y mae'r broses yn gweithio ar hyn o bryd a phenderfynu beth yw'r ffordd orau o gyflawni ei gylch gwaith mwy eang. Clywodd y pwyllgor dystiolaeth gan Carwyn Jones AC, Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ a Kate Cassidy, Pennaeth yr Uned Materion Cyfansoddiadol a Rheoli Deddfwriaeth.

**Dr Dai Lloyd AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**
**11 Tachwedd 2008**

## Atodiad 1

### Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**(SLC(3)-25-08)**

### SLC213

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

### O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn.

### Teitl: Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2008 ("Gorchymyn

**2008”)**

Daw’r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Rhagfyr 2008 ond mae’n effeithiol o 1 Ebrill 2008 ac mae’n gymwys o ran Cymru. Mae’r Gorchymyn hwn yn ailddeddfu Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2006 ("Gorchymyn 2006”) gyda diwygiadau. Darparodd Gorchymyn 2006 ar gyfer cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach o ran Cymru yn sgil dod i rym adran 63 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Gwnaeth yr adran honno ddiwygiadau i adrannau 42A, 43 a 47 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988”).

Yn ychwanegol at ddrafftio diwygiadau mae’r Gorchymyn hwn yn gwneud y newidiadau sylweddol a ganlyn:-cynyddu trothwy uchaf gwerth ardrethol ar gyfer cael rhyddhad cyffredinol; darparu rhyddhad penodol ar gyfer mangre fanwerthu, darparwyr gofal plant ac undebau credyd; a darparu am i drethdalwyr sy’n gwneud cais am ryddhad roi hysbysiad i’r awdurdod bilio ond nid yw hyn yn gymwys i’r trethdalwyr hynny sy’n gwneud cais am ryddhad ar sail eu gwerth ardrethol yn unig. Mae’r ddarpariaeth hon hefyd yn gymwys mewn cysylltiad â swyddfeydd post a oedd yn gymwys o dan Orchymyn 2006.

Effaith gwneud Gorchymyn 2008 fydd cynyddu nifer y busnesau bach sy’n gymwys ar gyfer rhyddhad ardrethi, a darparu cymorth ychwanegol i sefydliadau manwerthu bach, sefydliadau gofal plant cofrestredig ac undebau credyd.

### Rheol Sefydlog 15.2

### Nodwyd y pwynt a ganlyn i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2:-

Mae Erthygl 1 yn effeithiol o 1 Ebrill 2008, gan mai hwn yw dyddiad dechrau’r flwyddyn ardrethu gyfredol. Nid yw’r ddeddfwriaeth alluogi yn gwneud darpariaeth benodol i ganiatáu effaith ôl-weithredol. Mae’r diwygiadau dan sylw yn trosglwyddo budd yn hytrach na gosod cyfrifoldeb, ac maent yn effeithiol yn ystod y flwyddyn dreth gyfredol. O dan yr amgylchiadau hynny caiff y mater ei nodi er gwybodaeth yn hytrach na fel beirniadaeth. (Rheol Sefydlog (iv)).

**Dr Dai Lloyd AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**
**11 Tachwedd 2008**

### Mae’r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:-

Mae’r Llywodraeth yn cytuno nad yw’r Ddeddf alluogi yn gwneud darpariaeth benodol i ganiatáu effaith ôl-weithredol ac ymhellach y mae’n cytuno â barn y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth nad yw’r mater yn destun adroddiad ond er gwybodaeth yn hytrach fel beirniadaeth neu fel rhywbeth y mae angen ei gywiro.

## Atodiad 2

### Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**(SLC(3)-25-08)**

**SLC214**

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

### O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i’r offeryn a ganlyn.

### Teitl: Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) 2008

Mae’r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006 sy’n cynnwys mesurau i atal cyflwyno ac ymledu plâu a chlefydau niweidiol drwy roi Cyfarwyddebau a Phenderfyniadau Ewropeaidd penodol ar waith. Effaith y diwygiadau yw israddio statws dau bla, gwneud mân newidiadau i’r rhestr o ardaloedd a gydnabyddir fel parthau gwarchod a gwneud mân newidiadau technegol mewn perthynas â’r cytundeb ar fasnach mewn cynhyrchion amaethyddol rhwng yr UE a’r Swistir i adlewyrchu’r newidiadau yn neddfwriaeth iechyd planhigion y pleidiau. Mae’r gorchymyn hefyd yn dirymu tri offeryn sy’n ymwneud â gofynion hysbysu ar gyfer tatws hadyd a thatws bwyta o Aelod-wladwriaethau penodol.

### Gweithdrefn: Negyddol

Bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i’r offeryn hwn o dan Reol Sefydlog 15.2(vi) (drafftio diffygiol).

Mae Erthygl 1 yn nodi teitl y Gorchymyn. Yn y testun Cymraeg mae geiriau sy’n cyfateb i "The Plant Health (Wales) Order” wedi eu hepgor.

**Dr Dai Lloyd AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**
**11 Tachwedd 2008**

**Mae’r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:-**

Mae'r Llywodraeth yn nodi'r pwynt adrodd a grybwyllir uchod.  Caiff y gwall ei gywiro pan gyhoeddir yr offeryn.